



(CPHContact)
(aPAONName)
(aNumber aStreet)
(aLocality)
(aTown)
(aCounty)

00 Month 20XX

Annwyl Syr/Madam

Twbercwlosis buchol (TB) - Profion ar ôl Symud yn yr Ardal TB Isel yng Nghymru

Dengys ein cofnodion ei bod yn bosibl y bydd angen cynnal profion TB ar ôl symud ar wartheg a symudwyd yn ddiweddar i'ch daliad.

Daeth y gofyniad i gynnal profion ar ôl symud ar wartheg sy'n symud i mewn i'r Ardal TB Isel yng Nghymru o rannau eraill o Gymru neu'r ardaloedd yn Lloegr lle y cynhelir profion TB bob blwyddyn (neu'n amlach) i rym ar 1 Hydref 2017 o dan Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd).

Dengys cofnodion y System Olrhain Gwartheg (CTS) eich bod, yn Month Year wedi derbyn XXX o anifeiliaid o ardal yng Nghymru sydd y tu allan i'r Ardal TB Isel neu sy'n ardal yn Lloegr lle y cynhelir profion gwyliadwriaeth TB bob blwyddyn neu'n amlach. Oni bai bod yr anifeiliaid hyn, neu'r math o symudiadau, wedi'u heithrio rhag profion ar ôl symud bydd angen iddynt gael eu profi rhwng 60 a 70 diwrnod ar ôl iddynt gyrraedd eich daliad. Mae'r daflen ffeithiau dros y dudalen yn rhoi mwy o fanylion am y gofynion o ran cynnal profion ar ôl symud, gan gynnwys rhestr o'r eithriadau.

Chi sy'n gyfrifol am drefnu'r Profion Ar Ôl Symud a thalu amdanynt, a dylech gysylltu â'ch milfeddyg i drefnu'r prawf, gan ofyn am Brawf 'POSTMOVOV'.

Ni ddylai gwartheg y mae angen cynnal prawf ar ôl symud arnynt gael eu symud oddi ar eich safle nes i'r prawf gael ei chwblhau â chanlyniad negyddol. Noder y gall methu â chydymffurfio â'r rheolau ynglŷn â phroffion ar ôl symud arwain at atgyfeiriad at yr Awdurdod Lleol.

Noder bod y llythyr hwn yn cael ei anfon at ddibenion gwybodaeth er mwyn eich atgoffa o'r gofyniad cyfreithiol i gynnal profion ar ôl symud ar wartheg penodol. Ni fydd unrhyw fethiant ar ein rhan i hysbysu rhywun am y gofyniad hwn neu fethiant i ddarparu gwybodaeth gywir a/neu gyflawn (e.e. nifer yr anifeiliaid) yn rhyddhau ceidwad gwartheg o'i rwymedigaethau cyfreithiol.

Ceir rhagor o wybodaeth am broffion ar ôl symud ar wefan Llywodraeth Cymru:
www.gov.wales/bovinetb.

Yn gywir

Tim Cydymffurfiaeth TB APHA

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

Taflen Grynhoi Profion ar ôl Symud

Symud gwartheg oddi ar eich safle:

- pan symudir anifail buchol (gwartheg, byfflo dŵr neu fuail) i'r Ardal TB Isel yng Nghymru o fuches a leolir mewn rhan arall o Gymru, Ymyl Lloegr neu'r Ardal Risg Uchel yn Lloegr

Rhaid i'r ceidwad sy'n derbyn yr anifeiliaid drefnu a thalu am brawf croen ar ôl symud i gael ei gynnal ar yr anifail gan filfeddyg cymeradwy o fewn dim llai na 60 diwrnod, ond dim mwy na 120 diwrnod, i'r dyddiad cyrraedd ar y safle derbyn, oni bai bod y fuches neu'r symudiad yn bodloni'r eithriadau a restrir isod.

Mae peidio â gwneud hyn yn drosedd o dan Orchymyn TB (Cymru) (fel y'i diwygiwyd)

- rhaid i brofion ar ôl symud gael eu trefnu gan berchennog y fuches a rhaid iddo dalu amdanynt
- bydd profion gwylidwriaeth TB rheolaidd yn cyfrif fel profion ar ôl symud am 60 diwrnod ar gyfer anifeiliaid a gynhwysir yn y prawf hwnnw os caiff ei gynnal o fewn y terfyn amser cywir
- cewch gopi o siartiau pob prawf TB ar ôl symud clir y bydd yn rhaid i chi eu cadw fel tystiolaeth bod yr anifeiliaid yn eich buches wedi cael eu profi
- lle y byddwch yn symud anifeiliaid heb eu profi ar ôl symud fe'ch cynghorir i gadw tystiolaeth o'r eithriad

Symud gwartheg i'ch safle:

- dylech sicrhau bod gwartheg a brynir o fuchesi yn yr ardal TB isel a ddaeth yn wreiddiol o'r tu allan i'r ardal TB isel, wedi cael eu profi ar ôl eu symud
- dylech ofyn am gael gweld copi o'r dystiolaeth o brawf
- os byddwch yn derbyn gwartheg na chawsant eu profi ar ôl eu symud, dylech ynysu'r gwartheg ar unwaith, gan drefnu i brawf TB gael ei gynnal rhwng 60 a 120 diwrnod ar ôl iddynt gyrraedd yr ardal risg isel, a thalu am y prawf hwnnw, a hysbysu eich swyddfa APHA leol. **Os na fyddwch yn gwneud hyn gall eich buches gael ei rhoi dan gyfyngiadau symud nes i'r gwartheg gael prawf croen TB â chanlyniadau negyddol.**

Pa wartheg neu fath o symudiad sydd wedi eu heithrio o'r profion ar ôl symud?

- gwartheg sy'n cael eu lladd o fewn 120 diwrnod iddynt gyrraedd y safle derbyn
- gwartheg sy'n cael eu symud er mwyn cael triniaeth filfeddygol yn unig ar yr amod eu bod yn cael eu dychwelyd yn uniongyrchol i'w safle gwreiddiol ar ôl iddynt gael eu trin, neu'n cael eu lladd neu'n mynd yn uniongyrchol i gael eu lladd
- gwartheg sy'n cael eu symud i sioe amaethyddol yn yr ardal TB isel, neu sy'n dychwelyd i'r ardal TB isel o sioe amaethyddol y tu allan i'r ardal TB isel ar yr amod:
 - nad yw'r symudiad yn cynnwys aros mwy na 24 awr neu fod yr anifeiliaid yn cael eu cadw ar faes y sioe
 - eu bod yn cael eu dychwelyd yn uniongyrchol i'r safle gwreiddiol ar ôl y sioe, neu'n cael eu lladd neu'n mynd yn uniongyrchol i gael eu lladd
- gwartheg sy'n cael eu symud yn uniongyrchol i un o'r canlynol
 - marchnad y bydd pob anifail yn mynd oddi yno'n uniongyrchol i gael ei ladd
 - uned besgi eithriedig
 - uned besgi drwyddedig
 - gwartheg sy'n cael eu symud o dan awdurdod trwydded symud a roddwyd gan arolygydd
 - gwartheg sy'n cael eu symud o fuches sydd wedi'i hachredu o dan raglen bTB CHecCS ac sydd â Statws Buches o 10

Pa fath o symudiadau anifeiliaid y mae'n ofynnol iddynt gael profion ar ôl symud a ganiateir cyn bod y prawf croen wedi'i gwblhau â chanlyniadau negyddol?

- symudiadau uniongyrchol (neu drwy gynhoed lladd neu farchnad) i gael eu lladd
- symudiadau i uned besgi gymeradwy, neu

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

- symudiadau a wneir o dan awdurdod trwydded symud a roddwyd gan arolygydd

Am ragor o wybodaeth gyffredinol am brofion cyn symud neu ar ôl symud, darllenwch y canllawiau Pre-movement and post-movement TB testing of cattle in Great Britain yn [GOV.UK](https://gov.uk) neu cysylltwch â'ch swyddfa APHA leol.